

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL AR Y BIL PEDOLWYR (COFRESTRU)

Cyflwyniad

01. Trafododd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Cynulliad Cenedlaethol Cymru y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Pedolwyr (Cofrestru) yn ei gyfarfod ar 16 Mawrth 2017.

Cefndir

02. Ar 16 Chwefror 2017, gosododd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Pedolwyr (Cofrestru). Mae'r Memorandwm yn ymwneud â chymalau'r Bil sy'n cynnwys darpariaethau sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.
03. Mae Rheol Sefydlog 29 yn cynnwys manylion am y broses am ganiatâd mewn perthynas â Biliau Senedd y DU. Pan fydd Senedd y DU yn dymuno deddfu ar bwnc sydd wedi'i ddatganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn ôl y confensiwn, mae gofyn iddi gael cydsyniad y Cynulliad cyn pasio'r deddfwriaeth dan sylw. Bydd y Cynulliad yn rhoi'r cydsyniad hwn drwy gyfrwng Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol.
04. Cyn y gall cynnig memorandwm cydsyniad deddfwriaethol gael ei gyflwyno, rhaid i Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r deddfwriaeth dan sylw gael ei osod a gellir ei ystyried gan bwyllgor neu bwyllgorau'r Cynulliad. Yn yr achos hwn, cafodd y Memorandwm ei gyfeirio gan Y Pwyllgor Busnes i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig i'w ystyried a chyflwyno adroddiad yn ei gylch.

Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi

05. Cyflwynwyd y Bil Pedolwyr (Cofrestru) fel Bil Aelod Preifat yn Nhŷ'r Cyffredin ar 29 Mehefin 2016, a chafodd ei ail ddarlleniad ar 27 Ionawr 2017. Pasiodd y Cyfnod Pwyllgor ar 7 Mawrth 2017.



06. Prif amcan y Bil yw gwneud newidiadau i gyfansoddiad y Cyngor Cofrestru Pedolwyr a'i bwyllgorau. Mae angen caniatâd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y darpariaethau hyn oherwydd eu bod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â Iechyd a Lles Anifeiliaid o dan baragraff 1 o Ran 1, Atodlen 7 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.
07. Diben y Bil hwn yw moderneiddio trefniadau llywodraethu'r Cyngor Cofrestru Pedolwyr a'i bwyllgorau, a hefyd eu strwythur a'r ffordd y maent yn gweithredu, gan ddiogelu a chynnal budd y cyhoedd wrth wneud hynny.
08. Mae'r Bil yn diwygio Deddf Pedolwyr (Cofrestru) 1975, sy'n nodi cyfrifoldebau statudol y Cyngor Cofrestru Pedolwyr, sef y corff sy'n rheoleiddio'r proffesiwn pedoli ym Mhrydain Fawr.
09. Erbyn hyn, mae'r trefniadau ar gyfer rheoleiddio pedolwyr, fel y'u nodir yn y Ddeddf Pedolwyr (Cofrestru), wedi dyddio ac nid ydynt bellach yn unol â'r modd y rheoleiddir proffesiynau eraill. Bwriad y diwygiadau arfaethedig yn y Bil Pedolwyr (Cofrestru) yw diweddarau cyfansoddiad y Cyngor Cofrestru Pedolwyr, ei Bwyllgor Ymchwilio a'i Bwyllgor Disgyblu, a'i wneud yn haws i wneud newidiadau o'r fath yn y dyfodol.

Y darpariaethau yn y Bil y gwneir cais am gydsyniad ar eu cyfer

Cymal 1 – Cyfansoddiad y Cyngor Cofrestru Pedolwyr a'i bwyllgorau

10. Diben y cymal hwn a'r atodlen i'r Bil a gyflwynir ynddo yw diweddarau cyfansoddiad y Cyngor, ei Bwyllgor Ymchwilio a'i Bwyllgor Disgyblu, er mwyn eu gwneud yn addas i'r diben, er mwyn eu rheoleiddio yn yr un ffordd â phroffesiynau eraill, ac er mwyn lliniaru anawsterau ymarferol.
11. Mae'r cymal hwn, felly, yn cyflwyno'r atodlen sy'n diwygio ac yn disodli atodlenni perthnasol y Ddeddf Pedolwyr (Cofrestru) 1975 i wneud newidiadau i gyfansoddiad y Cyngor Cofrestru Pedolwyr a'i Bwyllgorau.
12. Dyma'r prif newidiadau:
- disodli'r gofyniad presennol sy'n rhagnodi bod yn rhaid cael pedolwyr hunangyflogedig a chyflogedig yn aelodau o'r Cyngor. Nid oes angen gwahaniaethu fel hyn bellach. Nid yw ychwaith yn gynrychioliadol nac yn ddilys am fod 96% o'r pedolwyr cofrestredig yn



hunangyflogedig erbyn hyn;

- newid aelodaeth y Pwyllgor Ymchwilio a'r Pwyllgor Disgyblu statudol. Yn lle bod aelodau'r pwyllgorau'n cael eu penodi o blith aelodau'r Cyngor, bydd y gwrthwyneb yn gymwys; rhaid i aelodau'r pwyllgorau hynny beidio â bod yn aelodau o'r Cyngor. Diben hynny yw "gwahanu pwerau", gan sicrhau nad yr un bobl sy'n pennu safonau ar gyfer y proffesiwn â'r rheini sy'n ymchwilio i achosion posibl o dorri'r safonau hynny, ac yn dyfarnu mewn achosion o'r fath;
- cyflwyno gofynion o ran "cymhwyster i wasanaethu" ar gyfer holl aelodau'r Cyngor a'r pwyllgorau statudol, yn unol â'r arfer mewn cyrff rheoleiddiol eraill, a hefyd ddiffinio cyfnod yn y swydd; a
- newid y gofyniad o ran penodi Cadeirydd y Cyngor a'i gwneud yn ofynnol i'r Cadeirydd gael ei ethol gan aelodau'r Cyngor.

Cymal 2 – Pŵer i wneud newidiadau pellach i gyfansoddiad y Cyngor a'i Bwyllgorau

13. Diben y cymal hwn yw gwneud darpariaeth a fydd yn caniatáu i unrhyw ddiwygiadau i drefniadau llywodraethu'r Cyngor Cofrestru Pedolwyr yn y dyfodol gael eu gwneud drwy gyfrwng is-ddeddfwriaeth.
14. Mae gofyn diwygio'r Ddeddf Pedolwyr (Cofrestru) er mwyn gwneud unrhyw newid i'r Cyngor Cofrestru a'i bwyllgorau ac mae angen Deddfwriaeth sylfaenol er mwyn gwneud hynny ar hyn o bryd. Mae hynny'n golygu bod diffyg hyblygrwydd, ac mae'n ei gwneud yn anodd sicrhau bod y Cyngor Cofrestru Pedolwyr a'i bwyllgorau yn parhau i ateb y diben a gofynion yr oes sydd ohoni.
15. Mae'r cymal hwn, felly, yn darparu pŵer i wneud diwygiadau drwy gyfrwng is-ddeddfwriaeth i'r rhannau hynny o'r Ddeddf Pedolwyr (Cofrestru) sy'n nodi cyfansoddiad y Cyngor Cofrestru Pedolwyr a'i bwyllgorau. Mae'r cymal yn darparu i'r pŵer hwn gael ei arfer gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ac mae'r Bil yn gosod dyletswydd arno i ymgynghori â'r Cyngor a phersonau eraill y barna'r Ysgrifennydd Gwladol eu bod yn briodol cyn gwneud unrhyw newidiadau o'r fath. Mae gofyniad yn y cymal hwn hefyd fod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol, cyn iddo wneud newidiadau o'r fath drwy



gyfrwng is-ddeddfwriaeth, gael cydsyniad Gweinidogion yr Alban a Gweinidogion Cymru.

Casgliad

16. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Cyngor Cofrestru Pedolwyr yn gorff gyda chyfansoddiad sy'n gymwys ledled Prydain Fawr a bod y Bil yn arwain at yr angen am Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.
17. Nododd y Pwyllgor fod cynigion y Bil yn seiliedig ar ganlyniadau'r ymarfer ymgynghori ledled y DU a gynhaliwyd gan Defra yn 2013.
18. Nododd aelodau'r Pwyllgor fod y Bil yn adlewyrchu pryderon rhanddeiliad ar yr angen am fwy o dryloywder, yr angen i gael gwared ar wrthdaro buddiannau posibl; a'r angen i foderneiddio trefniadau cyfansoddiadol y Cyngor Cofrestru.
19. Nododd y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn credu bod y Bil yn gyfrwng deddfwriaethol priodol i weithredu'r newidiadau ac na fydd unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru o ganlyniad i'r Bil.
20. Nid oedd y Pwyllgor yn gweld unrhyw reswm i wrthwynebu'r Cynulliad yn cytuno ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r Memorandwm.

